



**Adroddiad i'r** Pwyllgor Safonau

**Dyddiad y Cyfarfod** 3 Rhagfyr 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Teitl** Adolygiad Penn o'r Fframwaith Safonau Moesegol

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru a gafodd ei gwblhau gan Mr. Richard Penn, ('yr Adolygiad')

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Mae'r Adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r fframwaith moesegol. Nid yw'n glir pa un o'r rhain fydd yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio barn y pwyllgor ar yr adolygiad cyn i Lywodraeth Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r argymhellion yn y dyfodol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a gynhyrchwyd yn seiliedig ar yr Adolygiad, mae copi ynghlwm yn Atodiad 1 yn ogystal â sylwadau ar yr argymhellion.

## **4. Manylion yr adroddiad**

4.1. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Sefydlwyd y fframwaith moesegol presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac nid yw wedi newid llawer ers hynny gan eithrio rhai mân ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad.

4.2. Pwrpas yr Adolygiad oedd sicrhau bod y fframwaith yn parhau i ateb y diben, a'i fod yn agored a thryloyw, a'i fod yn ennyn hyder pawb sydd ynghlwm â'r fframwaith.

4.3. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Mr. Richard Penn, cyn brif weithredwr awdurdod lleol i ymgymryd â'r Adolygiad gyda'r nod o gyflwyno adroddiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru erbyn mis Mehefin 2021. Bwriadwyd rhoi unrhyw newidiadau cytunedig ar waith cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

4.4. Byddai'r Adolygiad yn cynnwys:

- archwiliad o'r Codau Ymddygiad a fabwysiedir gan awdurdodau;
- dadansoddiad o effeithlonrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny.
- p'un a yw'r fframwaith yn parhau i ateb y diben;
- rôl y Pwyllgorau Safonau;
- dadansoddiad o'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi aelodau a staff;
- ystyriaeth o'r cosbau presennol a ph'un a ydynt yn parhau i fod yn addas.

4.5. Mae adroddiad Mr. Penn ar ganlyniad yr Adolygiad ynghlwm â'r adroddiad hwn fel Atodiad 1.

4.6. Canfyddiad cyffredinol yr Adolygiad oedd bod y fframwaith yn ateb y gofyn ac nad oes angen gwneud unrhyw addasiadau sylweddol. Mae'r Adolygiad yn awgrymu y gallai mân addasiadau a diwygiadau i'r fframwaith presennol arwain at lai o gwynion lefel isel a lleihau'r angen am ymchwiliadau ffurfiol yn sylweddol.

4.7. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canfyddiadau'r Adolygiad ac wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, gweler copi ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. Mae'r datganiad yn awgrymu y gellir gwneud mân ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn y tymor byr ac y bydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar unrhyw argymhellion sy'n ymofyn newid deddfwriaethol. Mae'n

awgrymu y bydd argymhellion eraill yn cael eu hystyried yn y tymor canolig a'r hirdymor.

4.8. Mae'r adolygiad wedi arwain at gymysgedd o argymhellion a datganiadau dan benawdau ar wahân. Mae'r penawdau hyn fel a ganlyn:

- Archwiliad o Godau Ymddygiad yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Enghreifftiol er mwyn nodi unrhyw amrywiadau lleol
- Dadansoddiad o effeithlonrwydd y fframwaith wrth feithrin safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny.
- Ystyried a yw'r fframwaith yn dal i fod yn addas i'r diben, gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal i fod yn berthnasol ac a oes angen i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiweddarau. Bydd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle y gellid/dylid gwneud gwelliannau i'r trefniadau presennol.
- Newidiadau i bwerau a phrosesau Panel Dyfarnu Cymru.
- Ystyried rôl Pwyllgorau Safonau, gan gynnwys eu rôl o ran Cynghorau Tref a Chymuned, ac a yw sefydlu is-bwyllgorau wedi cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi Cynghorau Cymuned ac ymdrin â chwynion.

4.9. Gellir dod o hyd i'r datganiadau a'r argymhellion a wnaed dan bob un o'r penawdau uchod ar dudalennau 43-52 yn Atodiad 1. Mae crynodeb o'r rhain yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn. Bydd rhai o'r argymhellion angen rhyw fath o newid deddfwriaethol. Bydd y mwyafrif o'r argymhellion sy'n ymofyn newid i'r gyfraith yn ymofyn offerynnau statudol, ond mae'n bosibl y bydd angen newid deddfwriaeth gynradd ar gyfer rhai ohonynt.

4.10. Ceisir barn y Pwyllgor am yr Adolygiad a'r argymhellion a amlinellir yn Atodiad 3 cyn i unrhyw ymgynghoriadau gael eu cynnal yn y dyfodol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid oes cysylltiad uniongyrchol i'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'n bosibl y bydd gofyniad am adnoddau yn ddibynnol ar ba argymhellion mae Llywodraeth Cymru'n dewis eu gweithredu. Bydd unrhyw weithrediad i'r dyfodol yn destun ymgynghoriad pellach.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen aseiad o'r effaith ar les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio barn y Pwyllgor am y cynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn yr Adolygiad.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Testun yma

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arbennig yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'n bosibl y bydd risgiau ynghlwm â gweithredu rhai o argymhellion yr Adolygiad i'r dyfodol.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Nid oes angen penderfyniad.